Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **16 Gorffennaf 2016**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Y Cynghorydd Bobby Feeley; Nicola Stubbins; Bethan Jones Edwards**

Awdur yr Adroddiad: **Nicola Stubbins; Bethan Jones Edwards**

Teitl: **Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gofynion o fewn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio i roi gwybod i bartneriaid o'r gofynion yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016 ac sy'n gofyn am sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob un o ranbarthau bwrdd iechyd yng Nghymru. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff statudol â swyddogaethau a ddiffinnir gan y Ddeddf ac mewn rheoliadau dilynol gyda grym y gyfraith.

**2.2** Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn hysbysu partneriaid Gogledd Cymru am y camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Cyngor yn: -

a) Cymeradwyo cynigion y Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amodol ar ddeialog dwy ffordd barhaus rhwng y Bwrdd a phartneriaid ar y rhaglen waith a threfniadau gweithredu ar gyfer y Bwrdd
b) Enwebu ei Gyfarwyddwr statudol ac aelod arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i eistedd ar y Bwrdd
c) Yn cefnogi'r opsiwn strwythurol lle: -
    i) Mae Grŵp Arweinyddiaeth o Swyddogion yn cefnogi'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor strategol a chyfarwyddo gwaith gweithredol.
    ii) Mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â threfniadau ardal i gyflwyno gwasanaethau integredig a chyllidebau cyfunol (lle bo'n briodol)

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae fforwm rhanbarthol yn Rhanbarth Gogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd, sy'n dwyn ynghyd partneriaid allweddol ym maes Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (yn bennaf

Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd). Mae’r corff rhanbarthol hwn wedi gweithio gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Byrddau Iechyd i reoli grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar sail ranbarthol er mwyn gwella cydweithio rhwng cynghorau, y gwasanaeth iechyd a darparwyr gofal annibynnol. Mae'r Ddeddf wedi trosglwyddo’r gweithgaredd hwn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol newydd a fydd yn cymryd trosolwg o ystod o ffrydiau ariannu rhanbarthol eraill yn ôl cyfarwyddyd y Gweinidog.

**4.2** Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd hefyd yn cymryd trosolwg o hyrwyddo gweithio integredig. Cynigir bod cyflawni gwaith integredig a gweithredu cyllidebau cyfun (os o gwbl) yn cael eu cynnal ar lefel ardal mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er mwyn helpu i gwrdd â'r amserlen statudol, mae Bwrdd Cysgodol wedi cael ei sefydlu i alluogi gwaith ar y cylch gorchwyl terfynol, blaenoriaethau a rhaglen waith y Bwrdd newydd mewn deialog dwy ffordd gydag aelodau cyfansoddol y Bwrdd.

**4.3** Bydd y Bwrdd Cysgodol yn cynnwys yr un aelodau a’r rhai sy’n cael eu cynnig ar gyfer y Bwrdd ffurfiol, ac fel sydd yn ofynnol gan statud. Bydd yn baratoad er mwyn sefydlu'r Bwrdd yn y cyfnod rhwng nawr a'r cytundeb i ffurfio'r Bwrdd gan bob partner statudol. (Y chwe Awdurdod Lleol a'r BIPBC). Bydd y Bwrdd yn cael ei sefydlu’n ffurfiol wrth i bob partner statudol dderbyn a chytuno ar yr adroddiad hwn ac enwebu aelodau i wasanaethu ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd trafodaeth bellach am sut y gallai'r trefniadau gweithredol weithio gyda phwyslais ar ddarpariaeth leol ac ardal o fewn y rhanbarth dan arweiniad Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, os oes modd ymdrin â’r mater dan sylw yn well yn rhanbarthol, yna dylid mabwysiadau ymagwedd Gogledd Cymru. Bydd y Bwrdd Cysgodol yn paratoi pecyn ymgynghori ar gyfer yr aelodau cyfansoddol a fydd yn manylu ar ei raglen waith arfaethedig, blaenoriaethau, adrodd yn ôl am berthnasoedd, trefniadau gweithredu ac ymgymryd ag Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

**4.4** Yn ôl Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i’r awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio a chyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn llunio asesiad anghenion rhanbarthol a fydd yn arwain y gwaith ardaloedd sy’n cyflawni gwaith integredig yn lleol.

**4.5** Mae Rhan 9 hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

**4.6** Diben Rhan 9 yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

**5.1** Bydd gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfrannu at y meysydd canlynol o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl

- moderneiddio'r Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

**5.2** Bydd gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cyfrannu at Gynllun Lles Sir Ddinbych 2014-2018 yn benodol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- mae pobl yn weithgar, wedi'u cysylltu ac yn cyfrannu at eu cymuned
- mae pobl yn cymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas, ac wrth wneud hynny, mae pobl yn parhau i ddysgu am eu byd
- mae pobl yn blaenoriaethu eu lles ac yn mynd ati i gynllunio i gynnal eu hannibyniaeth

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**6.1** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon caiff unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ei ddatblygiad, raglen waith ac ysgrifenyddiaeth ei ariannu o'r Grant Darparu Trawsnewid sy'n dod i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru. O fis Ebrill 2016 ymlaen, bydd yr arian hwn yn cael ei ddosbarthu yn y Grant Cynnal Refeniw a bydd angen i'r Bwrdd ystyried sut y mae'r Bwrdd, ei raglen waith ac ysgrifenyddiaeth yn cael eu cyllido o 2016/17 ymlaen.

**6.2** O ran gwasanaethau presennol yn y meysydd blaenoriaeth fel y rhestrir uchod, bydd angen integreiddio'r rhain a gallai hyn gynnwys darparu cyllidebau cyfun.

**6.3** Fodd bynnag**,** mae angen cael cyllideb ar y cyd mewn perthynas â llety cartrefi gofal o 6 Ebrill 2018.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

**7.1** Gweler ynghlwm AEC.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

**8.1** Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau presennol y Fforwm Partneriaeth a Grŵp Arweinyddiaeth ar 14 Mawrth 2016; roedd hon yn sesiwn wedi'i hwyluso dan arweiniad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen. Oddi wrth Awdurdodau Lleol roedd hyn yn cynnwys Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol.

**8.2** Mae'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Cydweithio Rhanbarthol wedi rhoi cyflwyniad am y Ddeddf i Brif Weithredwyr ac i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol a thynnu sylw at y gofynion ynghylch Rhan 9 y Ddeddf.

**8.3** Mae'r adroddiad drafft wedi cael ei rannu ac mae cynrychiolwyr o bob awdurdod wedi rhoi eu sylwadau, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Bydd yn rhaid monitro effaith y Grant Darparu Trawsnewid yn trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw er na ddylai greu pwysau o ran cost. Mae effaith ehangach integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, yn enwedig y gofyniad i

gronni adnoddau, yn ymgymeriad sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr. Mae'n hanfodol bod y trefniadau sefydliadol, llywodraethu ac ariannol i gefnogi hyn yn cael eu hystyried yn iawn ac yn cwrdd â gofynion yr holl bartneriaid. Mae'n amlwg yn gyfle i wella integreiddio a gwasanaethau i bobl ond mae risgiau os nad yw'r trefniadau yn gadarn. Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi cyfethol cynrychiolaeth Swyddog A151 i gynorthwyo gyda datblygiad y broses.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**10.1** Er ei fod yn ofyniad i gael Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae risgiau'n gysylltiedig gyda'r uchelgais, cyflymder a meysydd blaenoriaethu ar gyfer integreiddio gwasanaethau fel sy'n ofynnol o fewn y Ddeddf.

**10.2** Cyllid parhaus i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, ei waith a'i ysgrifenyddiaeth o fis Ebrill 2017 ymlaen.

**10.3** Er bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff statudol nid oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

A168 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015